**LC1279**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Addysg 2005 ("y Ddeddf").

### Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7

Er mwyn cychwyn darpariaethau Atodlen 19 (Diddymu) mae’n hanfodol cychwyn adran 123 naill ai yn ei chyfanrwydd neu’n rhannol mewn perthynas â darpariaethau penodol yr Atodlen honno. Er bod y Gorchymyn yn cychwyn adran 123 yn rhannol, mewn perthynas ag amrywiol ddarpariaethau Atodlen 19, ni chafodd ei gychwyn mewn perthynas â’r darpariaethau hynny y cyfeirir atynt yn Atodlen 3 y Gorchymyn a dylid newid yr Atodlen honno yn unol â hynny. [Rheol Sefydlog 11.7(V)]

Mae Erthygl 2(2) y gorchymyn yn darparu bod cyfeiriadau at adrannau ac atodlenni, oni nodir fel arall, yn cyfeirio at adrannau ac atodlenni’r Ddeddf. Ar y sail hon, ym mharagraff 6 o Atodlen 4 y Gorchymyn, mae’r testun Saesneg yn awgrymu bod y cyfeiriadau at adran 27 ac Atodlen 3 yn cyfeirio at adran 27 ac Atodlen 3 y Ddeddf. Yna aiff y paragraff ymlaen i gyfeirio at ddiddymiadau amrywiol ddarpariaethau Deddf Addysg 1996. Fodd bynnag, mae’r testun Cymraeg yn awgrymu bod y cyfeiriadau

at adran 27 ac Atodlen 3 yn cyfeirio at adran 27 ac Atodlen 3 Deddf Addysg 1996. Y testun Saesneg sy’n gywir [Rheol Sefydlog 11.7(vi)].

Gellir cywiro’r mân wallau drafftio hyn drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Dygir y darpariaethau a restrir yn Atodlen 1 y Gorchymyn i rym mewn perthynas â Chymru. Mae’r Ddeddf yn darparu mai dim ond y Cynulliad a all gychwyn rhai darpariaethau ac o ganlyniad, dygir y darpariaethau hynny a restrir yn Atodlen 2 a 3 y Gorchymyn i rym mewn perthynas â Chymru a Lloegr ond ni fyddant yn ymarferol effeithiol yn Lloegr.

Rhoddwyd gwybod i’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Gorchymyn am fân bwynt fformadu sy’n addas i’w gywiro wrth ei gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 2 Mai 2006